









# Strategaeth Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt

2025-2028



WORKING IN PARTNERSHIP

NPCC
National Police Chiefs' Council

uk National Wildlife Crime Unit

uk National Rural Crime Unit









# Rhagair

**Y DBG Nigel Harrison**

**Fel arweinydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (CCPSH) o ran Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, rwyf yn hynod o falch o'r hyn mae swyddogion, staff a phartneriaid allweddol wedi'u cyflawni yn ystod y cylch strategol diwethaf.**

Nod y strategaeth hon ydy darparu cyfeiriad strategol ar gyfer plismona ym meysydd troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt. Er bod rhai elfennau yn y ddwy ffrwd yn gwbl wahanol, rwyf yn cydnabod bod llawer o heddluoedd yn cyflawni'r meysydd busnes hyn trwy dimau Troseddau Cefn Gwlad penodol, yn hytrach nag adnoddau ar wahân. Mae hyn yn cryfhau'r angen i'r ddwy ffrwd waith gael eu cynnwys yn yr un strategaeth.

Mae gan droseddau cefn gwlad lawer o wahanol agweddau ar gyfer llawer o wahanol bobl, yn aml yn dibynnu ar natur y gwaith, yr heddlu, neu ar asiantaeth neu gorff anllywodraethol (NGO).

Y gwir amdani ydy bod llawer o fathau o droseddau sy'n cael eu profi ledled y DU yn gallu bod yn amlwg mewn ardaloedd trefol a chefn gwlad.

Fel arweinydd plismona o ran Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, fy nod ydy gosod strategaeth er mwyn ymdrin â'r mathau o droseddau sydd fwyaf penodol i ardaloedd cefn gwlad, yn hytrach na darparu canllaw i heddluoedd er mwyn cyflawni gwasanaethau plismona mewn cymunedau cefn gwlad. Hwn ydy gorchwyl eglur Prif Gwnstabliaid pob heddlu.

Nid yn unig bod troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt yn dinistrio rhywogaethau ac ecosystemau, ond maent hefyd yn bwydo troseddau trefnedig, yn cynhyrchu cyllid anghyfreithlon, yn dinistrio bywoliaethau ac yn tanseilio diogelwch ein cymunedau. Roedd enghreifftiau o hyn yn amlwg yn ystod y cylch blaenorol, gyda'r cynnydd yn ein gwybodaeth ynglŷn â'r Fasnach Bywyd Gwyllt Anghyfreithlon (IWT), y bygythiadau trefnedig o greulondeb a cam-drin anifeiliaid, lladrata offer ffermio hanfodol ar raddfa fawr, a Grwpiau Troseddol Trefnedig yn galluogi dwyn caffael a gweithgareddau troseddol.



Gan adeiladu ar lwyddiant yr Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Genedlaethol (NWCU), tîm ymroddedig ac angerddol sy'n rheoli troseddau bywyd gwyllt yn genedlaethol, rydym wedi gweld datblygiadau a llwyddiannau allweddol pellach, gyda sefydliad yr Uned Troseddau Cefn Gwlad Genedlaethol (NRCU) ym mis Ionawr 2023, ac ynddo, y Tîm Lladrad Adeiladwaith ac Amaethyddol Cenedlaethol (NCATT). Mae'r ddau dîm newydd wedi cyflawni canlyniadau eithriadol ac wedi cynorthwyo llunio a gwella plismona cefn gwlad yn genedlaethol.

Bydd y strategaeth hon yn cael ei gyrru gan yr NWCU, NRCU ac heddluoedd y DU, ac yn cael ei hategu gan fframwaith partneriaeth cadarn a rhwydwaith cymorth cymunedol. Mae'n ceisio grymuso swyddogion heddlu a gorfodwyr er mwyn cymryd camau pendant yn erbyn y rhai sy'n camfanteisio a niweidio bywyd gwyllt a chymunedau cefn gwlad.

Dros y blynyddoedd, rydym wedi profi gwirionedd amlwg bod cysylltiad hanfodol rhwng troseddwyr sy'n targedu'n cymunedau cefn gwlad a grwpiau troseddol difrifol a threfnedig. Rydym hefyd wedi gweld bod y rhai sy'n niweidio anifeiliaid yn aml yn niweidio pobl.

Fel gorfodwyr, mae angen i ni fod yn gwbl ymwybodol o'r ffaith nad ydy troseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt yn bodoli ar wahân. Mae'n gysylltiedig â throseddau difrifol a threfnedig, dinistrio cynefinoedd a thargedu'r bregus. Nid yn unig  bod ymdrin â hyn  yn ymwneud â gwarchod natur neu gefn gwlad - mae'n ymwneud â diogelu'n cymunedau a sicrhau cyfiawnder.

Yn ein hymdrech i drechu troseddau bywyd gwyllt, byddwn yn cryfhau mesurau atal a datgelu, a byddwn yn herio'r troseddwyr sy'n elwa o'r fasnach bywyd gwyllt anghyfreithlon - un o'r mathau mwyaf cyffredin o droseddau ar draws y byd - a diogelu rhywogaethau prinnaf a mwyaf eiconig y DU.



Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu disgwyliad y cyhoedd y bydd yr heddlu yn cymryd safbwynt cryf yn erbyn troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt. Mae'n weledigaeth o bartneriaeth a phenderfynoldeb, hefo'r nod o gael gwared ar gyfleoedd i droseddwyr, tarfu ar a datgymalu rhwydweithiau troseddol, a diogelu'r byd naturiol a ffordd o fyw cefn gwlad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ystod y cylch strategol hwn, fy mwriad ydy bod plismona'r DU yn darparu cymorth penodol sydd wedi'i deilwra i'n cymunedau cefn gwlad a'r rhai sy'n byw ac yn gweithio ynddynt, gan sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaeth plismona gorau posib ar gyfer atal, datgelu a thawelu meddwl. Rwyf yn cydnabod bod y penderfyniad ynglŷn â Thimau Troseddau Cefn Gwlad penodol yn un i'r Prif Gwnstabliaid unigol ei gwneud. Ond fe fyddwn yn croesawu ymrwymiad i dimau Troseddau Cefn Gwlad gael eu hymgorffori ym mhob heddlu, ledled y DU, gan weithio mewn partneriaeth â'r timau cenedlaethol er mwyn darparu plismona yn y meysydd hyn.

Rwyf yn cydnabod bod nifer o bobl angerddol yn gweithio ym myd troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, sy'n darparu cymorth i lawer o wahanol feysydd, ledled y wlad. Er efallai na fydd rhai o'r meysydd penodol hyn yn cael eu crybwyll fel blaenoriaethau, rwyf i fel arweinydd cenedlaethol, a'r ddau dîm cenedlaethol arbenigol wedi ymrwymo gweithio hefo arweinwyr plismona, unedau ac asiantaethau partner eraill er mwyn cyflawni canlyniadau wrth i ni weithio er mwyn gwneud ein cefn gwlad a bywyd gwyllt yn fwy diogel.

Hefo'n gilydd, byddwn yn atal, datgelu a lleihau troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, gan ddangos ein bod yn unedig yn y nod hwn.

# Foreword

## Sarah Jones AS
## Gweinidog Dros Blismona ac Atal Troseddau, Y Swyddfa Gartref

## Y Fonesig Angela Eagle DBE AS
## Gweinidog Dros Ddiogelwch Bwyd a Materion Cefn Gwlad
## Adran Diogelwch Bwyd a Materion Cefn Gwlad

**Rydym wrth ein boddau i ddangos ein cefnogaeth i Strategaeth Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt newydd y CCPSH. Fe fydd yn offeryn hanfodol wrth ddarparu cyfeiriad ar gyfer plismona o ran trechu troseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt.**

**Mae troseddau cefn gwlad yn annerbyniol, ac maent yn cael effaith ddinistriol ar ein cymunedau cefn gwlad a'r sector amaethyddol. Mae'r Llywodraeth wedi ymroi gwarchod ein cymunedau cefn gwlad, yn ogystal ag ymdrin â throseddau sydd yn bennaf yn effeithio ar y cymunedau hynny, megis lladradau peiriannau. Mae'r strategaeth yn gam allweddol er mwyn sicrhau bod perwyl y Llywodraeth i gyflawni strydoedd mwy diogel yn berthnasol i gymunedau ledled y wlad.**

Er mwyn cynorthwyo'r heddlu yn eu hymdrechion i gadw ein cymunedau cefn gwlad yn ddiogel, rydym wedi cynnwys darpariaethau yn y Bil Troseddau a Phlismona ar gyfer rhoi grymoedd newydd i'r heddlu a'r awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â throseddau. Mae'n cynnwys mynediad di-warant, er mwyn i'r heddlu fynd i eiddo lle mae nwyddau wedi'u dwyn wedi'u nodi drwy fapio electronig – gan roi offeryn gwerthfawr i swyddogion er mwyn ymdrin yn gyflym gyda offer a pheiriannau wedi'u dwyn o ffermydd a busnesau amaethyddol. Mae mesurau newydd er mwyn galluogi i ganllawiau statudol gael eu rhoi i awdurdodau lleol, er mwyn eu cynorthwyo i wneud defnydd llawn a chywir o'u grymoedd gorfodi tipio anghyfreithlon.

Mae achosion o ddwyn peiriannau amaethyddol hefyd yn bryder mawr i ffermwyr, a dyna pham rydym wedi ymroi cyflwyno is-ddeddfwriaeth a fydd yn gweithredu'r Ddeddf (Atal) Lladrad Offer a chynorthwyo atal dwyn a gwerthu offer gwerthfawr.

Mae plismona cymdogaethau yn gonglfaen o'r model plismona Prydeinig. Mae pob cymuned yn haeddu plismona cymdogaethau sy'n amlwg, rhagweithiol a hygyrch, gyda swyddogion sy'n ymdrin â'r materion sy'n bwysig iddynt. Drwy Warant Plismona Cymdogaethau, rydym wedi addo ailsefydlu plismona cymdogaethau ym mhob cymuned, cefn gwlad a threfol, drwy ddyblu'r arian ar gael ar gyfer plismona cymdogaethau hyd at gyfanswm o £200 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon, er mwyn cynorthwyo camau cyntaf cyflawni 13,000 mwy o weithwyr cymdogaethau. Fe fydd gan pob cymuned – gan gynnwys ein cymunedau cefn gwlad – swyddogion hysbys gellir cysylltu gyda nhw er mwyn ymdrin â materion lleol.

Mae gwella cysylltiadau rhwng dinasyddion a heddluoedd lleol hefyd yn allweddol, fel y profir drwy waith rhagorol grwpiau gwarchod gwirfoddol troseddau cefn gwlad, sy'n treulio oriau'n llafurio yn eu hamser eu hunain, yn cydlynu gyda ffermydd a'r heddlu er mwyn gwella'r gallu i fynd ar drywydd troseddwyr ar draws rhannau mwy anghysbell y Deyrnas Unedig. Rydym wedi gweld enghreifftiau o arfer da, lle mae gwell cyfathrebu wedi galluogi ymateb heddlu cyflymach, ac wedi creu ymddiriedaeth mewn plismona.

Fe hoffwn gydnabod y rolau hanfodol

sydd gan yr Uned Troseddau Cefn Gwlad Cenedlaethol (NCRU), a'r Uned Bywyd Gwyllt Cenedlaethol (NWCU) mewn ymdrin â throseddau sy'n effeithio ar ein hardaloedd cefn gwlad, sy'n gallu peri heriau unigryw i blismona, oherwydd graddfa a phellter yr ardaloedd cefn gwlad.

Mae'r unedau yn chwarae rhan gwerthfawr wrth gynorthwyo heddluoedd ar draws y DU mewn ymyrryd ar droseddau difrifol a threfnedig, a thrwy gynnig eu harbenigedd.

Mae'r Llywodraeth hon yn croesawu'r ymroddiad gan y CCPSH bod yr heddlu'n sefyll yn gadarn ac yn gyson wrth wrthwynebu troseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt. Rydym yn falch bod y Swyddfa Gartref yn darparu'r buddsoddiad cyntaf ers 2023 ar gyfer yr Uned Troseddau Cefn Gwlad Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ariannol hon 2025/26, yn ogystal â pharhau i fuddsoddi yn yr Uned Bywyd Gwyllt Cenedlaethol. Fe wnaiff yr arian ychwanegol sydd dros £800,000 gynorthwyo'r unedau ddarparu cymorth gwerthfawr i heddluoedd lleol yn eu hymdrechion i ymdrin a throseddau sy'n arteithio cymunedau cefn gwlad.

Mae buddsoddiad yn yr Uned Troseddau Cefn Gwlad Cenedlaethol yn galluogi'r uned i gynyddu cydweithrediad ar draws heddluoedd, gan rwymo'r technoleg a'r data diweddaraf er mwyn targedu grwpiau troseddol difrifol a threfnedig sy'n gysylltiedig â throseddau fel lladrad offer o ffermydd.

Mae'r NWCU yn cynorthwyo atal a datgelu troseddau bywyd gwyllt yn y wlad hon. Pan mae ein bywyd gwyllt yn cael ei niweidio yn anghyfreithlon, fe ddylai grym y gyfraith gael ei chymhwyso ar droseddwyr, petaent wedi lladd aderyn ysglyfaethus, wedi lladd neu anafu mochyn daear drwy'r weithred ffiaidd o faetio moch daear, neu wedi cyflawni unrhyw un o'r troseddau annerbyniol yn erbyn bywyd gwyllt, sydd, ysywaeth, yn cael eu gweld o hyd yn y wlad hon. Fe wnaiff yr NWCU hefyd gryfhau ei gallu i ymyrryd â rhwydweithiau troseddol sy'n camfanteisio rhywogaethau gwarchodedig, yn y DU ac yn rhyngwladol, gyda gwell ddadansoddiad data ac ymchwiliad ariannol yn cynorthwyo olrhain enillion bywyd gwyllt anghyfreithlon, a sicrhau bod troseddwyr yn dod o flaen eu gwell. Mae'r NWCU yn darparu hyfforddiant cynhwysfawr i swyddogion troseddau bywyd gwyllt ledled Cymru a Lloegr, ynglŷn â holl flaenoriaethau troseddau bywyd gwyllt. Rydym yn deall bod cymorth yr NWCU wedi'i ddarparu i holl heddluoedd y DU yn ystod 2024-25.

Fe ddylai'r gyfraith fod ar gael er mwyn gwarchod ein hanifeiliaid gwyllt, nid yn unig o safbwynt foesegol ond oherwydd bod gwarchod bywyd gwyllt yn ran hanfodol o'n dull ar gyfer bodloni ein huchelgeisiau adfer natur.

Mae'r blaenoriaethau a osodwyd gan y CCPSH ynglŷn â throseddau bywyd gwyllt yn adlewyrchu'r gwaith sydd ar y gweill yn y Llywodraeth er mwyn ymdrin â gweithgareddau anghyfreithlon yn erbyn anifeiliaid.

Mae troseddau fel hela ysgyfarnogod yn dangos yr angen am strategaeth sy'n ystyried yr effeithiau ar fywyd gwyllt ac ar gymunedau cefn gwlad. Mae hela ysgyfarnogod yn weithgaredd ffiaidd sy'n gallu chwalu teimlad o ddiogelwch cymunedau cefn gwlad yn gyflym, gan eu bod yn cael eu cyflawni gan grwpiau troseddol trefnedig sy'n bygwth dioddefwyr ac yn difrodi tir.

Mae natur ddifrifol troseddau cefn gwlad a'r cysylltiad â grwpiau troseddol trefnedig wedi bod yn broblem barhaus sy'n effeithio nid yn unig diogelwch ein cefn gwlad, ond hefyd bywoliaeth y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno.

Hoffem estyn ein diolchgarwch i bawb sydd wedi cyfrannu at y strategaeth hon, ac at y perwyl ehangach o gyflawni strydoedd mwy diogel. Gyda'n gilydd, fe allwn ni greu ymddiriedaeth mewn plismona, a gwarchod cymunedau cefn gwlad er mwyn sicrhau bod y wlad yn lle mwy diogel i bawb.



# Datblygu Strategaeth

Mae creu'r **Strategaeth Genedlaethol Plismona Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt (2025-2028)** wedi bod yn broses fanwl a chydweithredol, wedi'i chynllunio er mwyn sicrhau ei bod yn gadarn ac yn effeithiol wrth ymdrin â heriau troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt sy'n esblygu'n barhaus. Rydym wedi mabwysiadu dull cynhwysfawr o ddatblygu'r strategaeth hon, gan bwysleisio gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac unioni strategol â blaenoriaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

Fel strategaeth CCPSH, mae'r ddogfen hon wedi'i chynllunio er mwyn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer blaenoriaethau a nodau plismona yn y DU, hefo parch dyledus i annibyniaeth weithredol y Prif Gwnstabliaid unigol, ac ar feysydd thematig o fewn cwmpas y portffolio hwn. Rydym yn cydnabod bod gan droseddau cefn gwlad ystyron gwahanol i wahanol grwpiau ac unigolion, ac nid ydy'r strategaeth hon wedi'i chynllunio er mwyn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer plismona yn ardaloedd cefn gwlad y DU. Yn hytrach, ei nod ydy darparu cyfarwyddyd ynglŷn â mathau penodol o droseddau sy'n gyffredin mewn ardaloedd cefn gwlad.

## Asesiadau Seiliedig ar Dystiolaeth

Mae dwy ffrwd i'r strategaeth hon, sy'n cwmpasu'r ddau faes portffolio, sef troseddau Cefn Gwlad a throseddau Bywyd Gwyllt. Yn ystod y datblygiad, ac er mwyn llywio'r strategaeth hon, fe gynhaliwyd asesiadau strategol a thactegol.

O ran Troseddau Cefn Gwlad, mae data partneriaeth wedi darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein hasesiad strategol, sy'n dangos yn eglur y niwed y mae rhai troseddau yn eu cael ar gymunedau cefn gwlad. Mae tystiolaeth gadarn o'r cynnydd mewn dwyn caffaeliad o offer amaethyddol a ffermio allweddol sy'n gysylltiedig hefo troseddau trefnedig, dwyn da byw sy'n cael effaith ariannol ac emosiynol, ac ymosodiadau cŵn ar dda byw sy'n cael effaith ddwys ar ffermwyr a pherchnogion cŵn.

O ran Troseddau Bywyd



Gwyllt, gwerthusodd ein hasesiadau gyflawniad yr Uned Genedlaethol Troseddau Bywyd Gwyllt (NWCU), heddluoedd ledled y DU, a Grwpiau Cyflawni Blaenoriaeth Troseddau Bywyd Gwyllt y DU (PDGs). Drwy'r adolygiad hwn, fe wnaethom nodi llwyddiannau, heriau a meysydd i'w gwella wrth ymdrin â throseddau bywyd gwyllt.

## Ymgynghoriadau hefo Rhanddeiliaid

Gan gydnabod pwysigrwydd cydweithrediad, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori yn y cnawd ac ar-lein . Daeth y sesiynau hyn â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd, gan gynnwys asiantaethau gorfodi'r gyfraith, sefydliadau amgylcheddol, cynrychiolwyr cymunedol, a phartneriaid rhyngwladol. Mae eu mewnwelediadau a'u harbenigedd wedi bod yn amhrisiadwy wrth lunio'r strategaeth, gan sicrhau ei bod yn adlewyrchu gwirionedd gorfodi ar y rheng flaen, ac anghenion y rhai sy'n gweithio er mwyn gwarchod bywyd gwyllt ac ardaloedd cefn gwlad.


## Sgorio MORiLE a Throseddau Bywyd Gwyllt

Mae'r broses sgorio Rheoli Risg mewn Gorfodi'r Gyfraith (MORiLE) wedi'i defnyddio er mwyn gwerthuso materion troseddau bywyd gwyllt blaenorol a chyfredol. Mae'r dull hwn yn ein caniatáu ni nodi a blaenoriaethu'r meysydd risg uchaf i fywyd gwyllt y DU, gan sicrhau bod ein canolbwynt strategol yn cael ei gyfeirio at lle y bydd yn cael yr effaith fwyaf.

Mae proses sgorio MORiLE a chanfyddiadau ein hymgynghoriad wedi arwain at nodi'r meysydd blaenoriaeth canlynol ar gyfer gweithredu. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynrychioli'r peryglon mwyaf i fywyd gwyllt y DU ac o'r fasnach anghyfreithlon mewn bywyd gwyllt. Maent yn cynnwys troseddau a gweithgareddau sy'n achosi niwed sylweddol i fioamrywiaeth, ecosystemau a lles cymunedol. Trwy ganolbwyntio ar y meysydd risg uchel hyn, rydym efo'r nod o gyfeirio adnoddau ac ymdrechion yn effeithiol er mwyn lleihau galw, risg a throseddu.

# Blaenoriaethau Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt 2025-2028

**Mae'r naw blaenoriaeth strategol hyn yn cynrychioli'r meysydd pennaf o fygythiad, risg a niwed i gymunedau cefn gwlad a bywyd gwyllt o safbwynt plismona.**




## Troseddau Cefn Gwlad

Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd plismona cefn gwlad. Mae angen i'n cymunedau cefn gwlad weld a theimlo presenoldeb heddlu cystal ag unrhyw le arall yn y wlad, ac mae angen iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo, gan sicrhau ein bod yn gwrando ar eu hanghenion penodol, ac yn ymdrin â nhw.

Mae'r strategaeth hon yn cydnabod y niwed difrifol mae troseddau cefn gwlad yn ei achosi. Mae ein pedair blaenoriaeth strategol sy'n ymwneud yn benodol â throseddau cefn gwlad yn cynrychioli'r materion sy'n achosi'r niwed mwyaf i'n cymunedau cefn gwlad.

### Troseddau Cefn Gwlad Caffael Trefnedig a Dwyn Peiriannau

Mae troseddau caffael wedi'u galluogi gan Grwpiau Troseddol Trefnedig (OCG) yn amlygu ei hun mewn dwyn offer amaethyddol hanfodol, systemau GPS, peiriannau fferm, beiciau cwad a cherbydau pob tirwedd (ATVs).

Mae'r troseddau hyn yn achosi niwed mawr i gymunedau ffermio cefn gwlad, gan arwain at oedi ac amhariadau difrifol ar arferion gwaith, cynyddu teimladau o fod yn ynysig, ac mae ganddynt oblygiadau ariannol eang. Mae'r NRCU a'r NCATT wedi gweld llwyddiant mawr hyd yma wrth ymdrin â'r maes hwn, wrth adfer peiriannau wedi'u dwyn gwerth

[1]Cytundeb Masnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau o Ffawna a Fflora sydd mewn Perygl



miliynau o bunnoedd. Mae ffurfio NCATT wedi gwella cydlynu rhwng heddluoedd a chynyddu adferiadau yn sylweddol. Mae hefyd wedi caniatáu cyflwyniad rhaglenni hyfforddi cenedlaethol, er mwyn cyfarparu swyddogion gyda'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn ymdrin â lladradau peiriannau. Yn ogystal, mae'r NRCU wedi cyfarwyddo mesurau ataliol drwy ymgynghori ar y Ddeddf Atal Dwyn Offer, a fydd yn atal dwyn ac ailwerthu offer amaethyddol drwy sicrhau bod llonyddyddion a marcio fforensig yn cael eu gosod fel rheol.

Mae'r grymoedd mynediad di-warant arfaethedig o dan y Bil Troseddau a Phlismona i'w croesawu, a fydd yn caniatáu i swyddogion chwilio am offer wedi'i ddwyn yn gyflym os oes gwybodaeth ei fod mewn lleoliad penodol, heb fod angen gwarant. Wrth i ni geisio ymdrin, tarfu a datgymalu'r bygythiad grwpiau trosedd trefnedig i gymunedau cefn gwlad, bydd y gwaith atal a datgelu hwn yn parhau, dan arweiniad arbenigol

U.

### Aflonyddu ar Dda Byw

Mae troseddau da byw yn cael effeithiau ariannol ac emosiynol sylweddol ar ein cymunedau ffermio. O dan y strategaeth hon, mae troseddau da byw yn cael eu categoreiddio i aflonyddu gan gŵn a throseddau lladrad; gan gydnabod y bydd troseddwyr, tactegau'r heddlu, gorfodi a phartneriaethau priodol yn wahanol iawn rhwng y meysydd hyn.

Mae aflonyddu ar dda byw yn flaenoriaeth Troseddau Cefn Gwlad ar gyfer y cylch strategol hwn, gan adeiladu ar y cynnydd cryf a'r sylfeini rydyn ni wedi'u sefydlu. Rydym wedi cynhyrchu hyfforddiant partneriaeth, ac mae llwyddiant eglur i'w weld o ran atal a lleihau, hefo NFU yn adrodd bod hawliadau ledled y DU am ymosodiadau cŵn ar dda byw wedi gostwng 26% yn 2024, ac yng Nghymru, yn drawiadol, o 64%. Fodd bynnag, mae troseddau sy'n poeni da byw yn parhau i beri problem i ffermwyr. Byddwn yn parhau i gefnogi ardaloedd plismona er

mwyn ymateb yn gadarn i ddigwyddiadau aflonyddu ar dda byw, drwy Ymgyrch Recall, sydd wedi gweld heddluoedd yn cryfhau eu hymdriniaeth tuag at y digwyddiadau hyn drwy ddefnyddio deddfau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweithio mewn partneriaeth agos, ymwybyddiaeth o'r cyfryngau cymdeithasol, a darparu hyfforddiant perchnogaeth cŵn cyfrifol, sy'n cael ei dreialu'n llwyddiannus yng Nghymru.

Byddwn yn parhau â'n cymorth ar gyfer cael cyfraith ddiwygiedig newydd drwy'r Senedd, a fydd yn cynyddu ein gallu ymchwilio ac yn galluogi gorfodi digonol o ran y troseddau hyn. Bydd ein cefnogaeth i'r prosiect dadansoddi DNA, sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo ymchwiliadau yn dilyn ymosodiad da byw, yn parhau hefo Prifysgol Lerpwl er mwyn cryfhau ein gallu ymchwilio.



## Dwyn Da Byw

Mae dwyn da byw yn parhau i beri problem ledled y DU ac yn fygythiad parhaol i ddiogelwch bwyd cenedlaethol. Mae'r nifer cynyddol o ddigwyddiadau o ddwyn da byw yn gysylltiedig â galw uwch, sy'n cael ei yrru gan amrywiadau mewn cadwyni cyflenwi a'r argyfwng costau byw ehangach. Mae penodi Cydlynydd Dwyn Da Byw Cenedlaethol yn 2024 yn cynrychioli datblygiad sylweddol yn y portffolio dwyn da byw cenedlaethol. Mae gallu heddluoedd lleol i ymateb i ladradau wedi gwella'n sylweddol drwy ddosbarthu hyfforddiant a darparu cymorth ymchwilio. O dan Ymgyrch Foldyard, mae darn sylweddol o waith yn parhau er mwyn gwella gweithdrefnau casglu a chofnodi data yn genedlaethol, ac mae hyn wedi gwella ein dealltwriaeth o helaethder dwyn da byw a modus operandi troseddwyr.

## Themâu ychwanegol

Mae'r strategaeth bresennol yn cael ei hategu gan gydnabyddiaeth o gymhlethdodau troseddau cefn gwlad penodol sy'n drawsffiniol eu natur. Mae'r rhain yn ymwneud â lefel sylweddol o gynllunio a chydlynu, yn aml yn cynnwys rhwydweithiau rhyngwladol, ac sy'n cael effaith ddwys ar gymunedau cefn gwlad. Wrth edrych ymlaen, bydd dealltwriaeth o'r gwirioneddau hyn yn parhau i fod yn sail i'n dull o ymdrin â throseddau cefn gwlad, wrth i ni barhau i ddatblygu ymateb plismona sy'n gallu bodloni'r heriau hyn.

Wrth wraidd cyflawni'r canlyniadau hyn mae’r lefel uwch o gydlynu rhwng heddluoedd, a hwylusir drwy sefydlu'r Tîm Troseddau Cefn Gwlad Cenedlaethol.

O dan arweinyddiaeth y Cydlynydd Troseddau Cefn Gwlad Cenedlaethol, bydd blaenoriaeth Plismona o dan Arweiniad



Cudd-wybodaeth yn cael ei sefydlu er mwyn cynyddu'r nifer o ymgyrchoedd rhagweithiol sy'n ymdrin â throseddwyr trefnedig. Bydd creu Sianel Teams Troseddau Cefn Gwlad cenedlaethol hefyd yn cael ei defnyddio er mwyn datgymalu rhwystrau i rannu gwybodaeth rhwng heddluoedd, a chaniatáu i blismona ddarparu ymateb heb ffiniau i'r bygythiad hynod symudol a threfnedig maent yn ei wynebu.

Er bod hon yn strategaeth plismona ar gyfer ymdrin â mathau o droseddu sy'n bennaf yn benodol i ardaloedd cefn gwlad, rydym yn cydnabod bod llawer o feysydd eraill o bryder mewn cymunedau cefn gwlad y gall plismona gynorthwyo er mwyn atal, datgelu a gorfodi.



Mae tipio anghyfreithlon, er enghraifft, yn fater sy'n achosi melltith ar gymunedau cefn gwlad. Trwy'r Bil Troseddau a Phlismona, darperir canllawiau eglur ynglŷn â gorfodi ar gyfer Awdurdodau Lleol, sy'n gyfrifol am arwain o ran tipwyr anghyfreithlon a phobl sy'n torri'r ddyletswydd gofal gwastraff cartref (drwy roi gwastraff i dipiwr anghyfreithlon).

Er nad plismona yw'r asiantaeth arweiniol ar gyfer ymdrin â thipio anghyfreithlon, rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo Awdurdodau Lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru gydag ymchwiliadau, gorfodi ac atal.

Hefo Awdurdodau Lleol yn cael y grym i chwilio ac atafaelu cerbydau sy'n gysylltiedig â throseddau tipio anghyfreithlon, yr awdurdod i gyhoeddi hysbysiadau cosb penodedig a grymoedd cysylltiedig ar gyfer ymchwilio ac erlyn, rydym yn hyderus, hefo cymorth plismona lle bo hynny'n briodol, y gellir gwneud cynnydd eglur wrth ymdrin â'r mater hwn.

Mae llawer o dimau Troseddau Cefn Gwlad hefyd yn ymdrin â Throseddau Treftadaeth. Er mai gosod cyfeiriad strategol ydy cylch gwaith Arweinydd Troseddau Treftadaeth CCPSH, rydym wedi ymrwymo cynorthwyo rhaglenni hyfforddi, gwella cydlynu rhwng asiantaethau a'r heddlu, a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o Droseddau Treftadaeth drwy ymgyrchoedd allgymorth cymunedol ac addysgol.

Ym myd Plismona Cefn Gwlad, mae nifer o bynciau a themâu eraill sy'n cael effaith ar gymunedau cefn gwlad, megis teimladau o fod yn ynysig, iechyd meddwl a cham-drin domestig. Er nad ydy'r pynciau hyn yn cael eu cyfeirio atynt fel blaenoriaethau nac yn dod o fewn cwmpas y strategaeth hon, mae'r heriau hyn yng nghymunedau cefn gwlad cefn gwlad yn cael eu cydnabod. Byddwn yn sicrhau bod gorfodwyr plismona sy'n gweithio o fewn Timau Troseddau Cefn Gwlad wedi'u cyfarparu'n dda er mwyn cysylltu'r gymuned hefo gwasanaethau cymorth perthnasol. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt gwasanaethau cymorth ar ddiwedd y ddogfen hon.

Yn ystod cylch bywyd y strategaeth hon heb os, bydd themâu a meysydd cyfoes pellach yn dod i'r amlwg. Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos drwy ein strwythurau presennol, ein partneriaid ac arweinwyr portffolio CCPSH eraill er mwyn ymdrin hefo unrhyw themâu o'r fath o safbwynt plismona, a bwrw ymlaen hefo'r gwaith er mwyn sicrhau cymuned cefn gwlad fwy diogel i bawb.



# Troseddau Bywyd Gwyllt

Mae ymdrin hefo Troseddau Bywyd Gwyllt yn flaenoriaeth genedlaethol ar gyfer natur a gwarchod y cyhoedd. Mae troseddau bywyd gwyllt yn fater difrifol sy'n effeithio nid yn unig ar ein byd naturiol ond hefyd ar ddiogelwch y cyhoedd. Yn 2024, cydnabuwyd Troseddau Bywyd Gwyllt yn 10 Uchaf Troseddau Difrifol Interpol. Mae'r strategaeth hon yn gosod y fframwaith ar gyfer dull cydlynol sy'n cael ei arwain gan gudd-wybodaeth o leihau bygythiadau a risgiau sy'n gysylltiedig â throseddau bywyd gwyllt ledled y DU. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod nad ydy troseddau bywyd gwyllt bellach yn ymwneud â diogelu anifeiliaid yn unig, mae'n ymwneud â wynebu troseddau difrifol a threfnedig sy'n cam-fanteisio ein hamgylchedd ac yn tanseilio cymunedau.

**Pwysigrwydd Plismona Troseddau Bywyd Gwyllt**

Mae erledigaeth anghyfreithlon bywyd gwyllt yn cael canlyniadau dinistriol ar natur, bioamrywiaeth, a nodau amgylcheddol ehangach y DU, gan gynnwys adferiad natur a chadernid hinsawdd. Mae rhywogaethau eiconig fel adar ysglyfaethus, ystlumod a moch daear yn parhau i ddioddef yn nwylo troseddwyr, sy'n gweithredu'n ddi-gosb yn ôl pob golwg mewn rhai ardaloedd. Mae'r troseddau hyn yn difa ffydd y cyhoedd, yn enwedig mewn ardaloedd cefn gwlad, ac yn bygwth aflonyddu ar ymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol i gadwraeth bioamrywiaeth.

> Mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r gorgyffwrdd rhwng y rhai sy'n cyflawni troseddau bywyd gwyllt a'r rhai sy'n ymwneud â mathau eraill o niwed.

Mae troseddwyr sy'n ymwneud â throseddau bywyd gwyllt a chreulondeb anifeiliaid hefyd wedi'u cysylltu â thrais domestig, troseddau arfau, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae grwpiau troseddol trefnedig yn ymwneud fwyfwy â masnach bywyd gwyllt anghyfreithlon a gwyngalchu elw anghyfreithlon drwy rwydweithiau troseddol. Nid ydy hyn yn unig yn ymwneud â diogelu anifeiliaid,



mae'n ymwneud â tharfu ar droseddoldeb difrifol, trefnedig a niweidiol.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu meysydd blaenoriaeth lle mae troseddau bywyd gwyllt yn peri'r risg fwyaf i rywogaethau, cynefinoedd a diogelwch cymunedol.

### Hela Anghyfreithlon, Potsio a Hela Ysgyfarnogod

Mae bygythiadau yn y maes hwn yn croestorri rhwng Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt. Gall hela anghyfreithlon, potsio a hela ysgyfarnogod gael effaith



ddwys ar gymunedau cefn gwlad, hefo ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig yn achosi difrod, aflonyddwch a siom. Rydym yn cydnabod cymorth cadarn y llywodraeth er mwyn ymdrin hefo ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd cefn gwlad, drwy'r mesurau deddfwriaethol newydd a gynigir yn y Bil Troseddau a Phlismona sydd ar ddod. Byddwn yn cynorthwyo heddluoedd er mwyn rhoi plismona cefn gwlad cadarn ar waith, drwy hyfforddiant, ymgysylltu a chyngor, sy'n gallu ymgynghori hefo heddluoedd ynglŷn â Chynlluniau Gweithredu penodol, er mwyn sicrhau bod Plismona Cymdogaethau'n ymestyn i gymunedau cefn gwlad.

Mae potsio a hela ysgyfarnogod yn aml yn gysylltiedig hefo troseddoldeb trefnedig. Mae'r gweithgareddau hyn yn achosi niwed sylweddol i fywyd gwyllt, yn niweidio cymunedau cefn gwlad, ac yn aml yn gysylltiedig hefo trais, ymddygiad bygythiol, ac ymddygiad troseddol arall.

Mae arferion hela anghyfreithlon yn parhau er gwaethaf Deddf Hela 2004 (Cymru a Lloegr) a Deddf Diogelu Mamaliaid

Gwyllt (Yr Alban) 2002. Ar adeg cyhoeddi'r strategaethau hyn, nid ydy'r deddfau hyn yn berthnasol i Ogledd Iwerddon.

Mae gorfodi'n hanfodol ar gyfer cynnal y gyfraith, ynghyd ag arddull plismona teg, cytbwys a chyson. Rydym yn cydnabod bod deddfwriaeth wahanol ledled y DU yn y maes hwn, a byddwn yn teilwra ein hymateb yn unol â hynny mewn awdurdodaethau perthnasol.

### Troseddau Ystlumod

Mae ystlumod a'u clwydfannau yn cael eu gwarchod oherwydd eu pwysigrwydd ecolegol a'r peryg iddynt golli eu cynefinoedd. Mae llawer o droseddau yn y maes hwn yn parhau i ddigwydd mewn cysylltiad â gwaith datblygu. Mae dull rhagweithiol yn rhan annatod o atal troseddau a gwarchod ystlumod a'u clwydfannau. Rhaid i asiantaethau gorfodi a phartneriaid fod yn barod i ymateb i ddigwyddiadau ac erlid unigolion neu fusnesau sydd wedi torri deddfwriaeth.

### Troseddau Adar Ysglyfaethus

Mae adar ysglyfaethus yn parhau i gael eu lladd yn anghyfreithlon drwy gael eu gwenwyno, eu saethu a'u trapio, a'u cynefinoedd yn cael eu dinistrio. Mae dadansoddeg data uwch a thechnegau proffilio problemau yn allweddol er mwyn deall lle mae gweithrediadau anghyfreithlon yn digwydd, a pha rywogaethau sy'n cael eu targedu. Er gwaethaf llwyddiannau diweddar mewn atal a gorfodi, mae'r troseddau hyn yn dal i ddigwydd, ac mae'r risg i rai rhywogaethau yn anghynaladwy. Yn ogystal, mae rhywogaethau adar eiconig yn cael eu cymryd o'r gwyllt, gan danio'r fasnach bywyd gwyllt anghyfreithlon yn y DU a thramor. Mae'r troseddau hyn yn rhwystr allweddol i adfer rhywogaethau adar sy'n fregus.

### Troseddau Moch Daear

Mae moch daear yn rhywogaeth warchodedig, ond maent yn dal i fod yn darged abwyd, lladd anghyfreithlon, a chreulondeb. Mae cynefinoedd moch daear yn parhau i gael eu difrodi a'u tarfu o ganlyniad i weithgarwch unigol, amaethyddol neu waith datblygu.

### Masnach Bywyd Gwyllt Anghyfreithlon a Throseddau CITES

Mae Masnach Bywyd Gwyllt Anghyfreithlon yn 4ydd yn y rhestr o droseddau mwyaf difrifol y byd, ac mae'r fasnach fyd-eang mewn rhywogaethau mewn perygl yn gyrru mewnforion ac allforion anghyfreithlon drwy ffiniau'r DU. Mae'r troseddau hyn yn aml yn cael eu trefnu gan grwpiau troseddol trefnedig hefo allgymorth traws wladol, ac yn cynnwys twyll, ffugio dogfennau a smyglo. Mae'r troseddau hyn yn effeithio ar y rhywogaethau a'r bobl fwyaf bregus yn y byd.

### Casgliad

Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu dealltwriaeth fodern o droseddau bywyd gwyllt fel bygythiad nid yn unig i anifeiliaid, ond i'n hecosystemau, yr economi a'n diogelwch cyhoeddus. Mae gorfodi effeithiol yn gofyn am weithio mewn partneriaeth rhwng plismona, asiantaethau statudol, sefydliadau anllywodraethol (NGOs) cadwraeth, awdurdodau ffiniau, a chymunedau lleol. Drwy flaenoriaethu atal, rhannu cudd-wybodaeth, a tharfu ar droseddwyr trefnedig, nod y strategaeth hon ydy gwarchod ein hamgylchedd naturiol
a'r bobl sy'n byw ynddo.

natur yn golygu ymdrin â'r troseddwyr sy'n camfanteisio arno.

[2] Mae amcangyfrifon o'r fasnach anghyfreithlon mewn bywyd gwyllt yn gyffredinol tua 7-23 biliwn USD bob blwyddyn – Y Cynnydd Mewn Troseddau Amgylcheddol, Asesiad Ymateb Cyflym UNEP-INTERPOL.



# Nodau Strategol

Cynorthwyo'r naw blaenoriaeth. Bydd y nodau strategol isod yn llunio sail i'n cynllun er mwyn trechu troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad dros y pedair blynedd nesaf.

**Cydlynu Gwell**
**Rhannu cudd-wybodaeth:**

Mwy o bwyslais ar nodi meysydd risg uchel, a sicrhau rhannu gwybodaeth rhwng heddluoedd, asiantaethau allanol a phartneriaid lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn adeiladu ar strwythur presennol y PARC er mwyn sefydlu partneriaethau ym mhob rhanbarth a sefydlu dulliau o rannu gwybodaeth rhwng partneriaid. Er mwyn sicrhau cydweithrediad rhanbarthol, byddwn yn ehangu'r defnydd o Sianeli Teams i holl Dimau Plismona Cefn Gwlad yr heddluoedd, neu bwyntiau cyswllt unigol yn eu lle er mwyn gwella cydlynu a rhannu data.

**Cydweithrediad Rhyngwladol:**

Adeiladu ar ein partneriaethau cryf gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith rhyngwladol er mwyn gwella cydweithrediad byd-eang, cyfnewid cudd-wybodaeth a datgymalu Grwpiau Troseddol Trefnedig traws wladol.

**Casglu a rhannu data:**

Sefydlu canllawiau arfer gorau ynghylch casglu, coladu a dadansoddi data troseddau cefn gwlad, er mwyn caniatáu i heddluoedd adolygu ac ymateb yn effeithiol i fygythiadau a thueddiadau presennol ac sy'n dod i'r amlwg, yn lleol ac yn genedlaethol. Gweithio er mwyn sicrhau bod ystod lawn troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn cael eu cofnodi'n gywir.

**Partneriaethau:**

Nodi a buddsoddi mewn cysylltiadau hefo partneriaid sy'n rhannu ein gwerthoedd a all gynorthwyo cyflawni ein nodau strategol.

**Tarfu a datgymalu**
**rhwydweithiau troseddol**

- **…yrchoedd o dan …einiad cudd-wybodaeth:** …efnyddio tactegau cudd-wybodaeth a phlismona uwch er mwyn nodi a thargedu rhwydweithiau troseddol sy'n peri'r bygythiad mwyaf.
- **Tactegau Aflonyddu:** Defnyddio ystod o dactegau aflonyddu, fel Gorchmynion Parch a grymoedd lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gynhwysir yn y Bil Troseddau a Phlismona, ynghyd â grymoedd presennol fel CBO a CPN/W.
- **Gorfodi penodol:** Cynnal ymgyrchoedd gorfodi penodol yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- **Ymchwiliadau Ariannol:** Targedu isadeileddau ariannol, gan nodi gwyngalchu arian sy'n seiliedig ar fasnach ac ariannu troseddol amlwg drwy atafaelu asedau a tharfu ar weithrediadau.

## Lleihau Risg a Bregusrwydd

- **…li Niwed:** …d ystadegau troseddau heddlu gwell yn caniatáu adnabyddiaeth benodol o'r meysydd mwyaf bregus.
- **Lleihau Bregusrwydd:** Diogelu'r rhai mwyaf bregus, trwy dynnu sylw at groesfannau hefo troseddoldeb prif ffrwd a throseddau difrifol a threfnedig.
- **Lleihau Teimladau Ynysig:** Gall cymunedau cefn gwlad yn aml deimlo'n ynysig ac yn fregus. Byddwn yn ymgorffori ac yn cryfhau plismona mewn cymunedau cefn gwlad. Hefo cymorth ymrwymiad y llywodraeth i gyflawni Gwarant Plismona Cymdogaethau,, dylai'r rhai sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd cefn gwlad deimlo mor ddiogel â'r rhai yn y trefi a'r dinasoedd.

## Gwella galluoedd atal a datgelu

- **… Trosedd:** …olbwyntio ar atal fel conglfaen ein model plismona. Gan ddefnyddio data dadansoddi troseddau, byddwn yn canolbwyntio adnoddau ar ardaloedd trosedd uchel a llecynnau, er mwyn atal, addysgu a lleihau cyfleoedd ar gyfer troseddu.
- **Plismona Cymdogaethau:** Mae plismona cymdogaethau yn ymestyn i gymunedau cefn gwlad. Byddwn yn ysbrydoli a chynorthwyo swyddogion plimsona cymdogaethau a thimau troseddau cefn gwlad yr heddluoedd rhanbarthol, er mwyn darparu plismona yn eu cymunedau.
- **Gwella Ymchwiliadau:** Adeiladu'r gallu o fewn y Timau Cenedlaethol ac o fewn timau troseddau cefn gwlad yr heddluoedd rhanbarthol ar gyfer ymchwilio, casglu tystiolaeth a dadansoddi.
- **Arloesedd:** Nodi a gweithredu'r defnydd gorau o dechnegau arloesol wrth atal, ymchwilio a gorfodi troseddau.
- **Hyfforddiant rheolaidd:** Gwella ymchwiliadau drwy ddarparu hyfforddiant rheolaidd arbenigol, er mwyn gwella sgiliau mewn atal ac ymchwilio i droseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.

## Sicrhau Erlyniadau Llwyddiannus a dal troseddwyr yn atebol.

[3]Gorchmynion Ymddygiad Troseddol a Hysbysiadau/Rhybuddion Diogelu Troseddol

- **Cyngor Arbenigol:**
Sicrhau y gall ymchwilwyr yr heddlu gael mynediad at gyngor arbenigol drwy ein Timau Cenedlaethol pan fo angen. Gweithio'n agos hefo Gwasanaeth Erlyn y Goron o'r dechrau'n deg er mwyn cryfhau achosion erlyniadau.

- **Deddfwriaeth Fodern:**
Ymgysylltu hefo partneriaid allweddol, rhanddeiliaid a'r llywodraeth er mwyn cyflawni deddfwriaeth ymarferol a phriodol sy'n addas ar gyfer ymdrin â heriau penodol o ran Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt.

- **Cefnogi erlynwyr:**
Darparu hyfforddiant arbenigol rheolaidd i'r farnwriaeth er mwyn gwella erlyniadau yn y maes cymhleth hwn.

**Codi ymwybyddiaeth**

- **Ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth Cyhoeddus:**
Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus ynglŷn ag effeithiau bywyd gwyllt a throseddau cefn gwlad ar ecosystemau, iechyd pobl a lles cymunedol.

- **Ymgysylltiad Cymunedol:**
Ysbrydoli cymunedau i chwarae rhan weithredol mewn gwarchod bywyd gwyllt a lleihau troseddau cefn gwlad, drwy addysg ac atal trosedd, gan wneud y defnydd gorau o'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyflawni ein nod.

**Llywodraethu a Phroffesiynoldeb**

- **Ychwanegu gwerth:**
[illegible]nal ein cyfundrefn lywodraethu, [illegible] ddarparu gwerth i'r cyhoedd, rhanddeiliaid a buddsoddwyr.

- **Gyrru cyflawniad:**
Datblygu metrigau cyflawniad penodol sy'n ymwneud â throseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, gan ganiatáu goruchwylio a chraffu ar gyflawniad.

- **Proffesiynoldeb Diduedd:**
Rydym yn cydnabod bod safbwyntiau cystadleuol a gwahanol yn ein maes gwaith, o bob agwedd o'r gymdeithas. Byddwn yn dangos gwasanaeth diduedd drwy sicrhau bod gweithgareddau plismona yn cael eu harwain gan ddata. Byddwn yn parhau i fod yn broffesiynol mewn meysydd o wahaniaeth barn.

Wrth integreiddio'r nodau strategol hyn, gall y DU ymdrin â throseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn effeithiol, a sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer bywyd gwyllt a phobl.



# Dull Cyflwyno

Gan ddod o fewn strwythur llywodraethu Portffolio Troseddau Caffael Difrifol a Threfnedig CCPSH, mae'r strategaeth hon, Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, yn ategu strategaethau plismona eraill a nodau plismona cenedlaethol. Bydd rhoi ein cynllun dull cyflawni ar waith yn sicrhau bod blaenoriaethau plismona cenedlaethol presennol yn gweithio mewn cytgord er mwyn cyflawni'r gorau ar gyfer Plismona'r DU.

Mae ein cylchoedd strategol blaenorol wedi gweld cynhyrchiant gwaith llwyddiannus nifer o Grwpiau Cyflawni Blaenoriaeth (PDGs) yn gyrru gwaith ymlaen mewn meysydd allweddol sy'n ymwneud â throseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt. Ar gyfer y cylch hwn, bydd y grwpiau hyn yn cael eu hailenwi'n Grwpiau Cyflawni Tactegol (TDGs) a bydd eu gwaith yn dod o dan un o'r naw blaenoriaeth ymbarél. Mae hyn yn cydnabod y bydd rhai grwpiau yn cynyddu llinynnau gwaith tactegol sy'n berthnasol i'r portffolio cefn gwlad neu fywyd gwyllt, ond nid ydynt yn cael eu cyfeirio'n benodol fel blaenoriaeth
ar gyfer plismona'r DU yn y cylch hwn.



- Bwrdd Bygythiad Troseddau Caffael CCPSH
  - Bwrdd Llywodraethu Arweinydd CCPSH – Troseddau Bywyd Gwyllt
    - Grwpiau cyflawni tactegol
  - Bwrdd Llywodraethu Arweinydd CCPSH – Troseddau Cefn Gwlad
    - Grwpiau cyflawni tactegol



# PARATOI
# GWARCHOD
# YMLID
# ATAL

Bydd gwaith y Grwpiau Cyflawni Tactegol yn canolbwyntio ar gyflawni'r dull '4 Pwynt' a ymgorfforwyd yn ystod y cylch strategol blaenorol.

Mae'r dull hwn yn cynnwys y llinynnau canlynol:

1. **Paratoi:** Paratoi ar gyfer yr adegau bydd troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad yn digwydd, gan sicrhau bod y bobl iawn, hefo'r hyfforddiant, yr offer a'r sgiliau iawn yn barod i ymateb. Dadansoddi data er mwyn dehongli a mapio bygythiadau presennol ac sy'n dod i'r amlwg, er mwyn sicrhau bod ein dull plismona yn barod.
2. **Atal:** Atal a rhwystro pobl a Grwpiau Troseddol Trefnedig rhag cymryd rhan mewn troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, drwy bartneriaethau effeithiol, strategaethau plismona ar sail problemau, plismona ar sail tystiolaeth, cyfryngau a chyfathrebu.
3. **Ymlid:** Mynd ar drywydd troseddwyr yn ddi-baid hefo pwyslais penodol ar droseddoldeb difrifol trefnedig, gan ddefnyddio'r ystod lawn o waith partneriaeth er mwyn erlyn, tarfu ac atal troseddau drwy orfodi.
4. **Gwarchod:** Gwarchod cymunedau cefn gwlad a bywyd gwyllt rhag effaith a niwed troseddau drwy ymdrech genedlaethol gydgysylltiedig.

Bydd pob Grŵp Cyflawni Tactegol yn derbyn gorchymyn gan naill ai'r Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Genedlaethol neu'r Uned Troseddau Cefn Gwlad Genedlaethol, bydd yn cael ei gymryd o'r strategaeth hon a'i droi'n amcanion cyflawnadwy. Yna, bydd aelodau'n gallu tystio eu hymrwymiad i gyflawni eu cynllun 4 Pwynt.

Hefo'r cylch strategol newydd, bydd pob Grŵp Cyflawni Tactegol yn cynnwys y cadeirydd presennol, a byddant naill ai'n trosglwyddo'r aelodaeth (os yn addas) neu'n ailsefydlu yn ôl yr angen.

Dylai aelodaeth o fewn y grwpiau hyn gael eu tynnu o'r heddlu a phartneriaid o'r rhanbarthau priodol, neu sydd hefo profiad neu arbenigedd yn y maes. Bydd hyn yn cynnwys, fel rhestr anghyflawn, sefydliadau llywodraethol ac anllywodraethol, elusennau a sefydliadau cymdeithas sifil. Bydd aelodau'r grŵp yn hyrwyddo nod plismona strategol y Grŵp Cyflawni Tactegol, a byddant yn cael eu cadw ar gyfer y sefydliadau a'r elusennau hynny sydd hefo gwerthoedd, nodau ac amcanion cyflenwol.

Mae aelodau'r Grŵp Cyflawni Tactegol yn cynorthwyo eu Cadeirydd priodol. Bydd y Cadeirydd yn adrodd naill ai i bennaeth NWCU neu'r NRCU fel y bo'n briodol, a fydd yn cynorthwyo'r cadeirydd ac yn cynorthwyo hefo llywodraethu ac atebolrwydd drwy'r cylchoedd asesu tactegol a strategol. Mae penaethiaid yr NWCU a'r NRCU yn uniongyrchol atebol i Brif Swyddog Heddlu CCPSH sy'n arwain y portffolio hwn, sydd yn ei dro yn adrodd i Fwrdd Bygythiad Troseddau Caffael CCPSH.



# Cau

Mae'r strategaeth hon yn cynrychioli ymrwymiad unedig i warchod bywyd gwyllt a chymunedau cefn gwlad y DU. Wrth unioni'n hymdrechion â'r blaenoriaethau hyn, byddwn yn gwella galluoedd gorfodi, creu partneriaethau cryfach, ac yn gydweithredol. Mae ein dull yn rhagweithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac wedi'i gynllunio er mwyn cyflawni canlyniadau ystyrlon a mesuradwy sy'n diogelu bioamrywiaeth ac yn lleihau'r niwed a achosir gan droseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad. Hefo gwerthfawrogiad mawr i aelodau tîm NWCU a NRCU, Plismona'r DU a'n partneriaid am yr adlewyrchiad strategol a'r ymdrechion cydweithredol sy'n sail i'r strategaeth hon, gan sicrhau ei bod nid yn unig yn uchelgeisiol ond hefyd yn ymarferol ac yn gyraeddadwy. Drwy'r dull trwyadl hwn, rydym yn gosod y llwyfan ar gyfer cynnydd parhaus yn yr ymdrech er mwyn trechu troseddau bywyd gwyllt a chefn gwlad hyd at 2028.

# Gwasanaethau Cymorth:

Mewn sawl ffordd mae'r diwydiant yn hunan-ddibynnol iawn ac mae yna lawer o grwpiau sy'n cynnig cymorth gwirioneddol yn dangos hyn. Mae hyn yn amrywio o gymorth i lenwi ffurflenni'r llywodraeth i gymorth hefo prynu darnau o offer sydd eu hangen yn fawr, darparu porthiant er mwyn bwydo anifeiliaid, tai pan fydd popeth arall yn methu yn ogystal â chyfleoedd i hyfforddi ac annog y genhedlaeth nesaf i'r diwydiant.

Yn ogystal â'r rhain, mae'n werth bod yn ymwybodol o gyfres podlediad gan Adam Henson o'r enw "Keeping on Track". Mae 15 yn y gyfres. Mae'n cael ei hystyried yn ardderchog gan arbenigwyr yn y maes ac fe'i hargymhellir yn fawr.

## Fforwm Iechyd Dynion

Fit For Farming – men's health made easy. Wedi'i ddiwygio a'i ail-ddylunio'n llwyr, rhifyn diweddaraf Fit For Farming. Archebwch gopi unigol neu lwyth o gopïau o Fit For Farming o siop Fforwm Iechyd Dynion.

- www.menshealthforum.org.uk/fit-farming
- (+44) 0330 097 0654

## Ymddiriedolaeth Lles Ciperiaid

Mae GWT yn darparu grantiau ariannol i giperiaid, llech-helwyr a gweision a'u teuluoedd mewn cyfnod o galedi, salwch ac ymddeoliad. Mae grantiau bach ar gael i bobl ifanc sy'n cipera fel gyrfa. Mae'r llinell gymorth yn rhan allweddol o'r gwasanaeth sy'n darparu gwasanaeth gwrando cyfrinachol hefo gwybodaeth a chymorth ar amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys iechyd, ymddeoliad, diswyddo, tai a materion cyflogaeth.

- www.thegamekeeperswelfaretrust.com
- Ffoniwch: 0300 1233088

## Rhwydwaith Cymorth Ffermio

Mae'r bartneriaeth Cymorth Ffermio yn gydweithrediad rhwng Cronfa Addington, y Rhwydwaith Cymunedol Ffermio a Chymorth Porthiant. Yn cael trafferth ymdopi a ddim yn siŵr ble i droi? Gall amseroedd fynd yn anodd i bawb, ond mae cymorth wrth law.

Trwy un alwad ffôn yn unig, gall ffermwyr mewn angen gael mynediad at gymorth am ddim, yn ddiduedd a chyfrinachol gan y tair elusen.

- www.farminghelp.co.uk
- Ffoniwch: 03000 111 999

## Cronfa Addington

Rydym yn bodoli i'ch cynorthwyo pan fydd angen cymorth arnoch fwyaf. Drwy ddarparu

tai, a chymorth ar ôl trychineb ar ffurf bwyd anifeiliaid neu wasanaethau i ffermwyr mewn angen ledled Cymru a Lloegr, rydym yn sefyll wrth eich ochr ac yn eich cynorthwyo chi godi yn ôl ar eich traed.

- www.addingtonfund.org.uk
- 01926 620135 a ffurflen ar-lein

## RABI - Yr elusen ffermwyr

Mae RABI yn parhau i weithio ddiflino er mwyn codi a chynorthwyo amaethwyr trwy gymorth ymarferol, ariannol ac emosiynol, gan gyffwrdd bywydau miloedd o bobl bob blwyddyn.

Wrth wraidd perwyl RABI mae'r ymrwymiad i fynd i'r afael hefo anghenion unigol amaethwyr. Rydym yn cynnig cymorth, cyngor ac arweiniad un-i-un arbenigol, wedi'i deilwra i bob amgylchiad unigryw. P'un a yw'n rhoi cyngor arbenigol ar fudd-daliadau sydd ar gael i amaethwyr neu'n cael mynediad at gymorth iechyd meddwl, mae RABI yn cynnig ffagl o obaith.

Mae ein llinell gymorth rhadffôn 24/7 0800 188 4444 yn sicrhau ein bod ar gael ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r flwyddyn i roi'r cymorth iawn i amaethwyr.

## Rhwydwaith Cymunedol Ffermio

Mae'r Rhwydwaith yn sefydliad gwirfoddol ac elusen wedi'i sefydlu ar egwyddorion Cristnogol. Rydym ni'n cerdded hefo ffermwyr ac aelodau o'r gymuned ffermio mewn amseroedd anodd. Rydym yma i gynorthwyo a gweithio hefo pawb sy'n ceisio cymorth y Rhwydwaith.

- Llinell Gymorth:  03000 111 999

## Yellow Wellies

Fel yswiriwr cydfuddiannol sydd wedi gofalu am gefn gwlad, ffermwyr a'u teuluoedd ers dros ganrif, penderfynodd NFU Mutual yn 2014 sefydlu'r Sefydliad Diogelwch Fferm, elusen annibynnol er mwyn cynorthwyo ffermwyr ifanc herio eu hymddygiad a newid eu hagwedd at ddiogelwch ffermydd. Nod y Sefydliad ydy cael dim marwolaethau y gellir eu hosgoi ar ein ffermydd. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Sefydliad yn cydweithio'n agos hefo partneriaid yn y diwydiant er mwyn ymgysylltu, addysgu a throsglwyddo negeseuon diogelwch fferm cryf a pherthnasol. Tudalen ar gyfer iechyd meddwl

- www.yellowwellies.org

## Cronfa Gefn Gwlad Frenhinol

Mae'r Gronfa Gefn Gwlad Frenhinol wedi'i hysbrydoli gan ein gweledigaeth, o ffermydd teuluol a chymunedau gwledig yn ffynnu, wedi'u hannog a'u cydnabod am eu rôl wrth

greu dyfodol cynaliadwy i gefn gwlad a'n cenedl gyfan. Rydym yn falch o fod yr unig elusen ledled y DU sy'n galluogi ffermydd teuluol a chymunedau gwledig sicrhau eu dyfodol.

Mae'r Gronfa Gefn Gwlad Frenhinol yn cynnig mynediad i ffermydd teuluol at gymorth uniongyrchol, lleol ac ymarferol a llwybr at ddyfodol cynaliadwy Cyswllt, rhif di-ri ar gael ar-lein. Cyswllt cychwynnol drwy e-bost: info@countrysidefund.org.uk

- www.royalcountrysidefund.org.uk

## Y Groes Goch

Mae'r Groes Goch wrth gwrs yn adnabyddus iawn ac yn gweithredu'n rhyngwladol, ond mae hefyd yn darparu cymorth gartref, nid yn benodol mewn ardaloedd gwledig, ond ledled y DU.

- www.redcross.org.uk

Mae yna hefyd sawl grŵp elusennol rhanbarthol fel a ganlyn:

## Cymdeithas Amaethyddol Swydd Efrog – Elusen Ffermio

- www.yas.co.uk/

## Rhwydwaith Gwasanaethau Gwledig

- www.rsnonline.org.uk/

## Sefydliad DPJ

Elusen Gymreig sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl mewn amaethyddiaeth.

- www.thedpjfoundation.co.uk

Yn ogystal, mae'n werth bod yn ymwybodol o elusennau sy'n gweithio'n benodol yn y diwydiant ceffylau er mwyn cynorthwyo eu haelodau.

## Cymdeithas Geffylau Prydain

- www.bhs.org.uk/go-riding-and-learn/changing-lives-through-horses/

## Racing Welfare - Cynorthwyo Gweithlu Rasio

- www.racingwelfare.co.uk/
















NPCC
National Police Chiefs' Council

WORKING IN PARTNERSHIP

uk National Wildlife Crime Unit

uk National Rural Crime Unit